Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Iechyd a Diogelwch

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

1. Cyflwyniad ........ 2
2. Diben ........ 2
3. Cwmpas ........ 2
4. Datganiadau Polisi ........ 2
5. Rolau a Chyfrifoldebau ........ 3
6. Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch ........ 5
7. Polisïau a Gweithdrefnau sy’n ymwneud â Diogelwch ........ 5
8. Monitro ac Adrodd ar Berfformiad Diogelwch ........ 5
9. Camddefnyddio’r Polisi ........ 6
10. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill ........ 6
11. Rheoli Fersiynau’r Ddogfen ........ 6

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a'r Rheoliadau a wnaed oddi tani, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ('y Brifysgol') i ddarparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer myfyrwyr, staff ac eraill y gallai gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt, i'r graddau bod hynny'n rhesymol ymarferol.

## 2. Diben

2.1. Diben y polisi hwn yw nodi bwriad y Brifysgol o ran bodloni rhwymedigaethau Iechyd a Diogelwch statudol, a'r fframwaith ar gyfer gwneud hyn.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae'r polisi'n berthnasol i holl weithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol.

3.2. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â Choleg Sir Gâr neu Goleg Ceredigion sy'n ffurfio rhan o Grŵp PCYDDS.

## 4. Datganiadau Polisi

4.1. Mae'r Brifysgol yn ystyried iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn rhan hanfodol o'i nodau strategol. Yn unol â hynny, mae wedi ymrwymo i alluogi staff a myfyrwyr i ddilyn eu gweithgareddau dilys ac i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn ddiogel drwy dargedu adnoddau sy'n gymesur â'r risgiau.

4.2. Mae Cyngor ac uwch reolwyr y Brifysgol wedi ymrwymo i gyflawni mesurau yn effeithiol i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Byddant yn grymuso staff a myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac eraill, ac i adrodd am bryderon. Byddant yn gweithio gyda staff priodol a chynrychiolwyr myfyrwyr, a byddant yn sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael mynediad at gyngor, gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth gymwys yn ôl yr angen.

4.3. Bydd y Brifysgol yn cynnal mesurau effeithiol i asesu a rheoli risgiau iechyd a diogelwch i staff, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid ac unrhyw aelodau eraill o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan ei gweithgareddau. Caiff hyn ei gyflawni drwy ymgynghori neu, lle bo'n briodol, drwy drafod gyda chynrychiolwyr staff a myfyrwyr.

4.4. Bydd y Brifysgol yn sicrhau y darperir systemau rheoli clir, gan ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, ar gyfer risgiau iechyd a diogelwch. Bydd uwch reolwyr y Brifysgol yn sicrhau bod ganddynt fynediad at gyngor cymwys ar iechyd a diogelwch a bod prosesau ar waith i uwchgyfeirio i'r lefel briodol o wybodaeth berthnasol ynglŷn â pherfformiad iechyd a diogelwch sefydliadol ac unrhyw risgiau, problemau a methiannau arwyddocaol o ran iechyd a diogelwch.

4.5. Bydd y Brifysgol yn ymgynghori â staff a myfyrwyr ynglŷn â'u risgiau yn y gwaith ac ynglŷn â dylunio a gweithredu mesurau ataliol ac amddiffynnol a, lle bo angen, ynglŷn â diwygio arferion cyfredol.

4.6. Bydd y Brifysgol yn cynnal mesurau effeithiol ar gyfer cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu materion iechyd a diogelwch gyda'r bwriad o wella'n barhaus.

4.7. Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau

**5.1. Yr Is-Ganghellor (IG)**

Yr IG sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddarparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer myfyrwyr, staff ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt. Bydd yr IG yn:

- Gweithredu fel eiriolwr cryf o blaid polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol gan sicrhau, drwy ddirprwyo lle bo hynny'n briodol, fod cyfrifoldebau oddi mewn i'r polisi'n cael eu cyflawni gan yr holl staff, myfyrwyr ac eraill y mae angen iddynt ei ddeall a'i ddilyn.
- Cefnogi'r rheini sydd â chyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau y dilynir polisïau a gweithdrefnau diogelwch y Brifysgol.
- Cynllunio a darparu adnoddau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch er mwyn i'r Brifysgol fodloni ei rhwymedigaethau moesol a chyfreithiol o ran diogelwch.

**5.2. Y Pwyllgor Ystadau / Cyngor y Brifysgol**

- Monitro ac adolygu effeithiolrwydd polisïau, safonau a gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol a'r ddeddfwriaeth sydd i ddod.
- Monitro'r gwaith o ddarparu hyfforddiant, cyfathrebu, cydweithredu a chyhoeddusrwydd yn effeithiol ynghylch iechyd a diogelwch ar draws y Brifysgol.
- Derbyn adroddiad Iechyd a Diogelwch ynghylch y tasgau uchod.

**5.3. Y Pennaeth Iechyd a Diogelwch**

- Cyflawni rôl y 'person cymwys' ar ran y Brifysgol.
- Pennu strategaeth glir a chydlynol o ran iechyd a diogelwch i'r Brifysgol.
- Datblygu gweithdrefnau a safonau diogelwch syml a chyson ar draws y Brifysgol.
- Cydgrynhoi data perfformiad diogelwch ac adrodd ar hyn trwy strwythur llywodraethu Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.
- Darparu cymorth, goruchwyliaeth a phan fo angen, her i feysydd academaidd a gwasanaethau proffesiynol ynghylch perfformiad iechyd a diogelwch drwy brosesau archwilio.
- Sganio'r gorwel; asesu'r modd y mae newidiadau deddfwriaethol yn effeithio ar y Brifysgol.
- Cynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r Brifysgol yn allanol yn ogystal â cheisio deall arfer gorau yn fewnol a meincnodi yn erbyn safonau diogelwch a pherfformiad mewn sefydliadau Addysg Uwch eraill.
- Cadeirio'r Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch wrth gyflawni ei Gylch Gorchwyl.

**5.4. Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch**

- Hyrwyddo, cydweithredu ac ymgynghori rhwng y Brifysgol a'i staff wrth gychwyn, datblygu a chyflawni mesurau i sicrhau iechyd a diogelwch ei staff, myfyrwyr ac eraill a effeithir gan weithgareddau'r Brifysgol.
- Adolygu perfformiad diogelwch ar draws y Brifysgol.
- Nodi a chynllunio ar gyfer unrhyw risgiau datblygol sy'n gysylltiedig â diogelwch.

- Cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiadau i weithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch presennol y Brifysgol.
- Adolygu a gwneud argymhellion o ran hyfforddiant yn ymwneud â diogelwch.
- Ystyried gweithgarwch gorfodi perthnasol yn fewnol neu'n allanol i'r Brifysgol.
- Gwneud argymhellion ynglŷn ag adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r fframwaith polisi Iechyd a Diogelwch.

### 5.5. Meysydd Academaidd / Gwasanaethau Proffesiynol

Yn gyfrifol am reoli'r holl beryglon iechyd a diogelwch sy'n codi o'u gweithgareddau. Mae Uwch Dimau Arwain y meysydd hyn yn gyfrifol yn benodol am y canlynol:

- Gweithredu fel eiriolwyr cryf o blaid fframwaith polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol gan sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle er mwyn ei gyflawni
- Sicrhau bod staff yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni iechyd a diogelwch yn effeithiol o ddydd i ddydd yn eu hamgylchedd eu hunain trwy ddilyn gweithdrefnau diogelwch y Brifysgol a'r maes unigol.
- Sicrhau y cynhelir hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol ar gyfer staff a myfyrwyr er mwyn iddynt allu ymgymryd â'u gweithgareddau'n ddiogel.
- Cymhwyso'r broses asesu risg er mwyn dynodi unrhyw risgiau sylweddol a sicrhau y caiff rheolaethau digonol a phriodol eu gweithredu a'u cynnal.
- Arwain wrth ymchwilio i ddamweiniau lefel isel / a fu bron â digwydd o fewn eu gweithgareddau, a gweithredu'r hyn a ddysgwyd.

### 5.6. Yr Adran Ystadau a Chyfleusterau

Yn gyfrifol am ddarparu, adeiladu, trosi a chynnal adeiladau diogel drwy ddylunio / cynnal a chadw, a darparu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau i greu amgylchedd gweithio diogel. Yn enwedig, byddant yn:

- Darparu a chynnal adeiladau / offer y Brifysgol.
- Darparu'r profion a'r rheolaethau gofynnol ar gyfer cydymffurfiaeth statudol.
- Sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn cael eu hystyried yn llawn ar gyfer eu holl weithgareddau i gynnwys gwaith cyfalaf, gweithgareddau cynnal a chadw a'r defnydd o gontractwyr.

### 5.7. Contractwyr

Yn gyfrifol am fodloni gofynion Cod Ymddygiad Contractwyr y Brifysgol a pholisi Rheoli Contractwyr cysylltiedig yn unol â'u pwynt cyswllt yn y Brifysgol.

### 5.8. Tenantiaid

Mae tenantiaid / trydydd partïon sy'n defnyddio eiddo'r Brifysgol yn gyfrifol am yr holl faterion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w gweithgareddau yn unol â'r cytundeb prydles. Rhaid iddynt gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol sy'n ymwneud â diogelwch.

### 5.9. Landlordiaid

Oni bai bod hynny wedi'i eithrio'n benodol gan y telerau prydles, mae landlordiaid adeiladau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio ar gyfer ei gweithgareddau yn gyfrifol am

fodloni gofynion y Brifysgol o ran dangos tystiolaeth priodol o ofynion sy'n ymwneud â diogelwch.

**5.10. Mae gan yr holl fyfyrwyr a staff gyfrifoldebau iechyd a diogelwch i wneud y canlynol:**

- Dilyn polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Brifysgol.
- Gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a staff, myfyrwyr neu ymwelwyr.
- Adrodd ar yr holl ddamweiniau, digwyddiadau, damweiniau fu bron â digwydd a pheryglon o ran iechyd a diogelwch.

## 6. Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch

6.1. Mae deall peryglon iechyd a diogelwch a'u risgiau cysylltiedig a allai effeithio ar y Brifysgol yn helpu i'w rheoli yn effeithiol. Mae hyn yn helpu i ddiogelu staff, myfyrwyr a'r rheini y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt, a'i henw da yn gyffredinol.

6.2. Mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau a'r tîm Iechyd a Diogelwch yn gweithio'n agos â meysydd academaidd a gwasanaethau proffesiynol i helpu i ddynodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Trwy broses o gefnogaeth a goruchwyliaeth byddant yn helpu'r meysydd hynny i leihau, rheoli neu ddileu'r peryglon i ddiogelwch.

6.3. Rheolir peryglon i iechyd a diogelwch trwy broses o asesu risgiau. Mae'r broses hon yn galluogi meysydd academaidd a gwasanaethau proffesiynol i ddeall eu peryglon a'u risgiau eu hun a dynodi'r rheolaethau a'r adnoddau mewn meysydd lle ceir y risg fwyaf.

## 7. Polisïau a Gweithdrefnau sy'n ymwneud â Diogelwch

7.1. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelwch yn helpu'r Brifysgol i gyflawni ei nodau diogelwch trwy nodi safonau diogelwch sylfaenol clir. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol – sy'n delio â'r modd y rheolir Iechyd a Diogelwch ar draws y Brifysgol.
- Polisïau, gweithdrefnau a safonau generig eraill y Brifysgol – yn nodi'r safonau sylfaenol i'w defnyddio ar draws y Brifysgol yng nghyswllt meysydd pwnc penodol o ran Iechyd a Diogelwch.
- Asesiadau risg / gweithdrefnau / systemau gweithio diogel lleol meysydd academaidd a gwasanaethau proffesiynol.

## 8. Monitro ac Adrodd ar Berfformiad Diogelwch

8.1. Bydd y Brifysgol yn monitro perfformiad diogelwch drwy'r canlynol:

- gosod targedau'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
- adolygu data damweiniau / digwyddiadau
- cynnal rhaglen cadw gwyliadwriaeth ar iechyd staff
- cynnal archwiliadau diogelwch
- dynodi a darparu hyfforddiant yn gysylltiedig â diogelwch
- ceisio adborth a gweithredu yn ei sgil

8.2. Adroddir ar berfformiad diogelwch i Gyngor y Brifysgol ac i'r Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch.

## 9. Camddefnyddio'r Polisi

9.1. Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldebau o ran Iechyd a Diogelwch. Os bydd rhai sydd â chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch pendant o fewn y polisi hwn yn mynd yn groes iddo, gellir ymdrin â hynny yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol. Pan ganfyddir trosedd bydd y Brifysgol yn cymryd camau perthnasol a phriodol.

## 10. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Tudalen fewnrwyd Iechyd a Diogelwch
- Polisïau Adnoddau Dynol
- Polisi Rheoli Risg
- Polisi Parhad Busnes

## 11. Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Awdur(on) y polisi: **CRAIG JONES** Teitl Swydd: **Pennaeth Iechyd a Diogelwch**

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Drafft | Craig Jones | |
| 1.1 | Drafft – adolygiad gan y Swyddog Gweithredol Polisi a Chynllunio | Claire Godden | 20.09.18 |
| 1.2 | Adolygiad blynyddol i gynnwys newidiadau i strwythurau a chyfrifoldebau'r Brifysgol | Craig Jones | 13.01.20 |
| 2.0 | Adolygiad blynyddol i gynnwys newidiadau i strwythurau a chyfrifoldebau'r Brifysgol | Craig Jones | 15.03.21 |
| 3.0 | Adolygiad blynyddol i gynnwys newidiadau i strwythurau a chyfrifoldebau'r Brifysgol | Craig Jones | 30.03.22 |
| 4.0 | Adolygiad Blynyddol – y Pwyllgor Ystadau wedi'i gynnwys yn y rolau a'r cyfrifoldebau | Craig Jones | 15.03.23 |

Statws presennol y Polisi: cymeradwywyd
Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AU
Dyddiad ei gadarnhau: 15/03/2023
Dyddiad y daw i rym: 15/03/2023
Dyddiad adolygu'r polisi: 15/03/2026
I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS / tudalen fewnrwyd Iechyd a Diogelwch

### Cymeradwyo

*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd*

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn cwblhau'r adran isod:*

---

***I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi'i gwblhau* ☒

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*